Goblygiadau o dan les a chytundebau ariannol	0	0
Arbedion: GPFH	0	0
Pensiynau: Staff	425	475
Croniadau	0	0
Incwm Gohiriedig	6,456	5,110
Credydwyr eraill	0	829
	9,077	7,618

6.3 Credydwyr

	Cyfanswm £000	2003-04 Cyfanswm £000
Swm sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn		
Goblygiadau o dan les ariannol a chytundebau HP	0	0
Credydwyr GIG	0	0
Benthyciadau'r Cynlluniad	0	0
Pensiynau: Staff	0	0
Arall	0	0
	0	0

6.4 Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

	Cytundeb							Hyd at 31 Mawrth 2005
	Ar 1 Ebrill 2004	Strwythuredig Trosglwyddwyd achosion i WRP	Trosglwyddo darpariaeth i gredydwy	Codi yn ystod y flwyddyn	Gwrthdaro heb ei ddefnyddio	Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	Dad- ddirwyn disgownt	
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Esgeulustod clinigol	0	0	0	0	0	0	0	0
Niwed personol	0	0	0	0	0	0	0	0
Holl golledion a thaliadau arbennig eraill	0	0	0	0	0	0	0	0
Ffioedd cyfreithiol amddiffyn ac eraill								
Costau gweinyddu	0	0	0	0	0	0		0
Is-gyfanswm	0	0	0	0	0	0	0	0
Pensiynau	0			0	0	0	0	0
Arall	0			56	0	0		56
Cyfanswm	0	0	0	56	0	0	0	56

Amseriad arfaethedig llif arian:

	Rhwyng			Cyfanswm £000
	O fewn blwyddyn £000	2 a 5 mlynedd £000	Ar ôl 5 mlynedd £000	
Esgeulustod clinigol	0	0	0	0
Niwed personol	0	0	0	0
Holl golledion a thaliadau arbennig eraill	0	0	0	0
Ffioedd cyfreithiol amddiffyn ac eraill	0	0	0	0
Pensiynau	0	0	0	0
Arall	56	0	0	56
Cyfanswm	56	0	0	56

Mae'r ddarpariaeth o £56,000 ar gyfer gofal parhaus yn berthnasol dim ond i'r costau hynny am ofal parhaus sy'n digwydd ar ôl 1 Ebrill 2003 sy'n destun adolygiad gan Ombwdsmon y GIG. Mae'r holl gostau sy'n destun adolygiad gan yr Ombwdsmon y sefydlwyd darpariaeth ar eu cyfer mewn perthynas â'r cyfnodau cyn 1 Ebrill 2003 wedi'u cynnwys yng nghyfrifon Bwrdd Iechyd Lleol Powys, fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

6.5 Cronfa Gyffredinol

Roedd symudiadau yn y Gronfa Gyffredinol o fewn y flwyddyn yn cynnwys:

	£000
Ar 1 Ebrill 2004	(2,485)
Cyn addasu'r cyfnod	(2,737)
Ar 1 Ebrill 2004 fel yr ail ddatganwyd	(5,222)
Cost gweithredu net am y flwyddyn ariannol	(96,384)
Cyllid net gan y Cynulliad (gan gynnwys cyfalaf)	94,487
Llog tâl cyfalaf	(183)
Trosglwyddo i gyrff GIG	0
Trosglwyddo i gronfa gyffredinol elfennau o'r gronfa wrth gefn ailbriso	0
	<hr/>
Balans ar 31 Mawrth 2005	(7,302)

6.6 Cronfa Wrth Gefn Asedau Rhodd

Roedd y symudiadau yn y gronfa wrth gefn asedau rhodd yn y flwyddyn yn cynnwys:

	£000
Balans hyd at 1 Ebrill 2004	0
Ychwanegiadau	0
Diffygion	0
Ailbriso a mynegeio	0
Gwaredu a diddymu	0
Dibrisio	0
	<hr/>
Balans ar 31 Mawrth 2005	0

6.7 Cronfa wrth gefn ail-brisio

Roedd symudiad y gronfa wrth gefn ailbriso am y flwyddyn yn cynnwys:

	£000
Balans hyd at 1 Ebrill 2004	0
Ailbriso	0
Mynegeio	0
Trosglwyddo i gronfa gyffredinol - ailbriso wedi'i wireddu	0
	<hr/>
Balans hyd at 31 Mawrth 2005	0

6.8 Rhwymedigaethau wrth gefn - nid yw'r colledion/enillion wrth gefn canlynol wedi eu cynnwys yn y cyfrifon -

Natur:	£000	Ansicrwydd yn effeithio ar y deilliant:
Ceisiadau cyfreithiol trydydd parti	0	
Dyledion amheus	0	
Arall	0	
	—	
CYFANSWM	0	

Ym mis Mawrth 2005 cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru hysbysebion mewn papurau cenedlaethol a lleol yn gwahodd pobl i gyflwyno achosion i gael eu hadolygu gan Ombwdsmon y GIG er mwyn canfod a ydynt yn gymwys i gael eu trin fel achosion gofal parhaus ac o ganlyniad i gael eu hariannu gan y BILI. Er bod rhagor o achosion wedi cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae'n bosibl bod yna ragor o achosion sydd heb gael eu cyflwyno i'r Ombwdsmon eto, nid yw'r BILI yn gwybod dim am ddilysrwydd, gwerth na maint yr hawliadau ar hyn o bryd ac ni wnaed dim darpariaeth am yr hawliadau ychwanegol hyn.

6.9 Balans o fewn y Llywodraeth

	Dyledwyr: Swm yn gostwng o fewn blwyddyn £000	Dyledwyr: Swm dyledwyr yn gostwng ar ôl mwy na blwyddyn £000	Credydwyr Swm sy'n gostwng o fewn blwyddyn £000	Credydwyr Swm sy'n gostwng ar ôl mwy na blwyddyn £000
Balans gyda chyrrff llywodraeth leol eraill	0	0	0	0
Balans o fewn awdurdodau lleol	0	0	314	0
Balans o fewn Ymddiriedolaethau GIG ac Ymddiriedolaethau Sylfaen	241	0	1685	0
Balans o fewn Byrddau Iechyd Lleol	155	0	301	0
Balans o fewn cyrrff cyhoeddus a chronfeydd masnachu	0	0	0	0
Balans gyda chyrrff y tu allan i'r llywodraeth	1283	0	6777	0
Cyfanswm hyd at 31 Mawrth 2005	1679	0	9077	0

6.10 Gweithgareddau yn dilyn y fantolen

Gweithgareddau yn dilyn y fantolen ag effaith sylweddol ar y cyfrifon:

1.	0
	0
2.	0
	0
CYFANSWM		<u>0</u>

6.11 Ymrwymadau cyfalaf

Mae gan y Bwrdd Iechyd Lleol yr ymrwymadau cyfalaf canlynol:

Contractio	0
Awdurdodedig ond heb gontractio	0
CYFANSWM	<u>0</u>

6.12 Trafodion â Phartïon Perthynol

£000

Cyfanswm gwerth trafodion gydag aelodau'r Bwrdd ac uwch aelodau staff allweddol yn 2004-2005 0

Mae Bwrdd Iechyd Lleol Sir Fynwy yn gorff corfforaethol a sefydlwyd trwy orchymyn y Cynulliad Cenedlaethol.

Ystyrir y Cynulliad yn barti perthynol. Yn ystod y flwyddyn mae Bwrdd Iechyd Lleol Sir Fynwy wedi cael nifer sylweddol o drafodion perthnasol â'r Cynulliad a chydag endidau eraill yr ystyrir y Cynulliad, ynghyd â'r Adran Iechyd yn Lloegr, yn rhiant-gorff iddynt.

Datgelir darparwyr GIG y mae'r BILL wedi cael trafodion perthnasol â hwy yn nodyn 4.2 i'r cyfrifon. Amlinellir trafodion â Chronfa Risg Cymru Gyfan yn nodyn 4.5.

Mae endidau cysylltiedig eraill y mae'r BILL wedi cael trafodion perthnasol â hwy yn cynnwys:

	Incwm £000	Gwariant £000
Ymddiriedolaeth GIG RNRHD	0	106
Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg	0	81
Ymddiriedolaeth GIG Abertawe	0	73

Yn ogystal, mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn cael nifer sylweddol o drafodion perthnasol ag Adrannau Llywodraethol eraill a chyrrff eraill y llywodraeth ganolog a llywodraeth leol. Mae'r trafodion mwyaf sylweddol ymhlith y rhain fel a ganlyn:

	Incwm £000	Gwariant £000
Cyngor Sir Fynwy	0	1,187

Mae aelodau canlynol y Bwrdd yn aelodau o Gyngor Sir Fynwy

B Hood
V Nelmes
E Hacket-Pain
C Berg
D Jones
M Wilkinson

Mae'r BILL hefyd wedi cael trafodion gyda'r cyrff gwirfoddol canlynol, y mae swyddogion ynddynt yn aelodau nad ydynt yn swyddogion o Fwrdd y BILL:

	Incwm £000	Gwariant £000
Sefydliad Dewi Sant (Mrs E Saysell)	0	84

Yn ystod y flwyddyn ni fu dim trafodion â phartïon perthynol ar gyfer rheolwyr allweddol.

6.12 Trafodion â Phartïon perthynol (parhad)

Derbyniodd aelodau Ymarfer Cyffredinol, Optometreg, Deintyddiaeth a Fferylliaeth y Bwrdd daliadau ar gyfer eu practisau meddygol, optegol, deintyddol neu fferyllol oddi wrth y BILL. Gwnaed y taliadau hyn o dan yr amodau masnachu arferol h.y. fel trafodion hyd braich:

Enw	Practis	Swydd ar y Bwrdd
Dr E Colter	Wye Dean Practice	Aelod nad yw'n swyddog
Dr A Gray	Gray Hill Surgery	Aelod nad yw'n swyddog
Dr H Messing	Chippenham Surgery	Aelod nad yw'n swyddog
Mrs H Isles	Wye Valley Surgery	Aelod nad yw'n swyddog
Mr P Garwood	Garwood Opticians	Aelod nad yw'n swyddog
Mrs B Geddes	Geddes Dental Surgery	Aelod nad yw'n swyddog

Mae aelodau canlynol y Bwrdd yn gyflogedig gan Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent

	Swydd ar y Bwrdd
Dr P Ruth	Aelod nad yw'n swyddog
Dr B Boylan	Aelod nad yw'n swyddog
Mr A Cottom	Aelod nad yw'n swyddog
Mrs A Morgan	Aelod nad yw'n swyddog

Roedd gan Dr L Hamilton Kirkwood swydd Cyfarwyddwr Meddygol a Chyfarwyddwr Anweithredol o ran y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol.

6.13 Colledion a thaliadau arbennig

	Nifer yr achosion	Gwerth yr achosion £
Niwed personol	0	0
Achosion twyll	0	0
Holl golledion a thaliadau arbennig eraill	1	63,880
Cyfanswm colledion a thaliadau arbennig	<u>1</u>	<u>63,880</u>

Dadansoddiad o achosion sy'n fwy na £100,000 a phob achos arall

	Symiau a dalwyd yn ystod y flwyddyn £	Swm cronnus £	Cymeradwy-wyd i'w ddileu o fewn y flwyddyn £
Achosion sy'n fwy na £100,000	0	0	0
	0	0	0
	0	0	0
	0	0	0
	0	0	0
	0	0	0
	0	0	0
	0	0	0
	0	0	0
	0	0	0
Is-gyfanswm	<u>0</u>	<u>0</u>	<u>0</u>
Pob achos arall	<u>63,880</u>	<u>63,880</u>	<u>63,880</u>
Cyfanswm yr achosion	<u>63,880</u>	<u>63,880</u>	<u>63,880</u>

6.14 Offer Ariannol

Mae FRS13, Deilliannau ac Offerynnau Ariannol Eraill angen datgelu rôl ariannol yn ystod cyfnod creu neu newid wyneb risg a hanfodion wrth ymgymryd â'i weithgareddau. Oherwydd y modd mae BILLau Cymru yn cael eu cyllido nid ydynt yn wynebu'r un risg ariannol sy'n wynebu busnesau. Hefyd, mae offer ariannol yn chwarae rôl mwy cyfyngol wrth greu neu newid risg a fyddai'n nodweddiadol o'r cwmnïau a restrwyd sy'n berthnasol i FRS 13. Nid oes gan y BILL unrhyw rymm i fenthyl na buddsoddi arian sy'n weddill a chynhyrchir asedau a rhwymedigaethau ariannol trwy weithgareddau o ddydd i ddydd yn hytrach na newid y risg sy'n wynebu'r BILL wrth ymgymryd â'i weithgareddau.

Risg Hylifedd

Mae dyraniadau incwm a gwariant cyfalaf y BILL yn cael ei gyllido gan adnoddau a bleidleisir yn flynyddol gan y Senedd. Felly, ni ddatgelwyd i risg hylifol sylweddol.

Risg Cyfraddau Llog

Mae holl asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol y BILL yn cynnwys dim neu gyfraddau llog sefydlog. Felly, nid oes unrhyw risg i gyfraddau llog.

Risg Arian Tramor

Mae gan y BILL incwm a gwariant tramor dibwys. Felly, nid oes unrhyw risg i arian tramor sylweddol.

6.15 Goblygiadau Les Ariannol

Roedd taliadau lleiafswm les yr ymrwymwyd y Bwrdd Iechyd Lleol iddo ar ddyddiad y fantolen fel a ganlyn

	£000
O fewn blwyddyn	0
Rhwng blwyddyn a 5 mlynedd	0
Ar ôl 5 mlynedd	0
	<hr/>
Is-gyfanswm	0
	<hr/>
Llai taliadau ariannol a ddyranwyd ar gyfer cyfnodau yn y dyfodol	0
	<hr/>
CYFANSWM	0
	<hr/>
Gellir dadansoddi goblygiadau net o dan brydles ariannol fel a ganlyn:	
Credydwy'r swm yn ddyledus o fewn blwyddyn	0
Credydwy'r swm yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	0

6.16 Cyllidebau mewn Cronfa

Cyfrif Memorandwm Cronfa ar y Cyd am y cyfnod 01.04.04 i 31.03.05

Adran 31 Cytundeb Uned Ailsefydlu Parc Maerdy

Cyllid Gros	Arian Parod £	Staff £	Arall £	Cyfanswm £
Cyngor Sir Fynwy	81,074		50,451	131,525
Bwrdd Iechyd Lleol Sir Fynwy	131,525			131,525
Cyfanswm Cyllid	212,599		50,451	263,050
Gwariant Uniongyrchol:				
Cysylltiedig â chyflogeion	184,263			184,263
Cysylltiedig ag adeiladau	10,074			10,074
Cysylltiedig â thrafnidiaeth	242			242
Cyflenwadau a gwasanaethau	9,855			9,855
Asiantaeth ac ar gontract	1,805			1,805
Cyfanswm Uniongyrchol	206,239			206,239
Gwariant Anuniongyrchol:				
Cysylltiedig â chyflogeion	300			300
Cysylltiedig ag adeiladau	6,102			6,102
Ailgodiadau Gwasanaeth Cefnogi	1,429			1,429
Cyllido cyfalaf			50,451	50,451
Cyfanswm Anuniongyrchol	7,831		50,451	58,282
Cyfanswm Gwariant	214,070		50,451	264,521
(Tan)/tros wariant net	1,471		dim	1,471

TYSTYSGRIF Y PRIF SWYDDOG CYLLID/CYFARWYDDWR CYLLID

Rwyf yn ardystio bod y cyfrif memorandwm cronfa ar y cyd uchod yn datgelu'n gywir yr incwm a dderbyniwyd a'r gwariant a wnaed yn unol â'r cytundeb partneriaeth, fel y'i diwygiwyd gan unrhyw amrywiad cytunedig dilynol, a wnaed o dan adran 31 Deddf Iechyd 1999.

Llofnodwyd
Prif Swyddog Ariannol
Cyngor Sir Fynwy

Dyddiad: 30ain Mehefin 2005

7 Gwybodaeth Ychwanegol

7.1 Tîm Comisiynu Ail Gynnig

Yn ystod 2004/05 bu BILI Rhondda Cynon Taf yn lletya'r Tîm Comisiynu Ail Gynnig. Cafodd BILI Rhondda Cynon Taf gyllid gan y Cynulliad i dalu am gostau rhedeg y Tîm Comisiynu Ail Gynnig a hefyd y costau cysylltiedig â gofal iechyd i'r cleifion a gafodd driniaethau o dan y Cynllun Ail Gynnig.

Cyfanswm y costau cysylltiedig â gofal iechyd ar gyfer 2004/05 oedd £6.892m, a oedd yn cynnwys £0.209m mewn perthynas â thrin cleifion o ardal Bwrdd Iechyd Lleol Sir Fynwy.

7.2 Addasiad Cyfnod Blaenorol

Ers eu dechreuad ar 1af Ebrill 2003, mae'r BILlau wedi dod o fewn ffiniau cyfrifo adnoddau'r Cynulliad a dylai eu cyfrifon blynyddol gydymffurfio â Llawlyfr Cyfrifo Adnoddau'r Trysorlys.

O dan gyfrifo adnoddau, nid yw cyllid y Cynulliad bellach yn cael ei drin fel 'incwm' ond fel 'cyllid' h.y. caiff ei ddefnyddio dim ond i hwyluso gwariant, ac felly ni ddylid byth ei dynnu i lawr cyn bod ei angen. Yn unol â hyn, ni ddylai dim dyledwyr na chredydwyr o ran cyllid y Cynulliad fodoli ar ddiwedd y flwyddyn. Yn 2003/04 ni chymhwyswyd yr agwedd hon ar gyfrifo adnoddau i gyfrifon y BILlau ar gyfer cyllido trafodion a wnaed yn 2003/04 nac o ran y gweddillion a etifeddwyd ganddynt oddi wrth yr hen Awdurdod Iechyd, ac felly roedd cyfrifon yn cynnwys gweddillion cyllido.

Felly yn 2004/05 roedd ACB yn ofynnol er mwyn ysgrifennu allan y gweddillion hyn ac adlewyrchu'r ffaith bod cyfrifo adnoddau wedi cael ei gyflwyno'n llawn. Mae'r symudiad net mewn gweddillion dyledwyr/credydwyr sy'n ganlyniad i hyn wedi'i ddwyn i'r Gronfa Gyffredinol yn y cyfnod blaenorol.

Nodir manylion yr ACB isod:

	(£'000)
Lleihad yn y Dyledwyr	5,477
Lleihad yn y Credydwyr	2,740
Lleihad yn y Gronfa Gyffredinol	2,737

Effaith yr ACB hwn ar ganlyniadau cyfrifon 2003/04 yw lleihau'r Gronfa Gyffredinol a lleihau'r asedau net £2,737,000.

Mae'r Cynulliad wedi cyfarwyddo'n ffurfiol na ddylid gwneud yr ACB a oedd yn ofynnol i gywiro taliadau cyfalaf blwyddyn flaenorol a godai o'r newidiadau i weddillion a amlinellir uchod, gan nad yw hyn yn cael dim effaith at ei gilydd ar y gronfa gyffredinol.

Pe bai ACB o'r fath wedi cael ei wneud, ei effaith fyddai cynnydd o £96,000 yn y costau gweithredu net.

**DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R PRIF WEITHREDWR
FEL SWYDDOG SY'N ATEBOL O'R BWRDD IECHYD LLEOL**

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi rhoi cyfarwyddyd mai'r Prif Weithredwr ddylai fod yn Swyddog sy'n Atebol i'r BILI. Mae cyfrifoldebau perthnasol y Swyddogion sy'n Atebol, gan gynnwys eu cyfrifoldeb i fod yn berchen a rheoleiddio'r arian cyhoeddus yr oeddynt yn gyfrifol amdano, ac am gadw cofnodion cywir, wedi eu gosod ym Memorandwm y Swyddog sy'n Atebol a gyhoeddwyd gan y Cynulliad.

Hyd eithaf fy ngwybodaeth, rwyf wedi derbyn y cyfrifoldebau a osodwyd yn fy llythyr penodiad fel Swyddog sy'n Atebol.

Dyddiad: 2005 Prif Weithredwr

**DATGANIAD CYFRIFOLDEBAU'R CYFARWYDDWYR O SAFBWYNT
Y CYFRIFON**

Mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr o dan y Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys yn cadarnhau bod y rhain yn rhoi barn deg a chywir o faterion y BILL ac incwm a gwariant y BILL am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r cyfrifon hyn, mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr:

- weithredu polisiau cyfrifa gan y Cynulliad yn rheolaidd gyda chymeradwyaeth y Trysorlys
- gyflwyno barn ac amcangyfrif sy'n gyfrifol ac yn synhwylol.
- nodi a ddilynydd safonau cyfrifa perthnasol, yn amodol ar waredu unrhyw ddeunydd a ddatgelir ac eglurir yn y cyfrif

Mae'r cyfarwyddwyr yn cadarnhau eu bod wedi cydymffurfio â'r gofynion uchod wrth baratoi'r cyfrifon.

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifa cywir sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol yr awdurdod a'u galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion a amlinellwyd yn y cyfarwyddyd uchod y soniwyd amdano gan y Cynulliad.

Trwy Orchymyn y Bwrdd

Arwyddwyd:

Cadeirydd:..... Dyddiad: 2005

Prif Weithredwr: Dyddiad: 2005

Cyfarwyddwr Cyllid: Dyddiad: 2005

DATGANIAD AR REOLAETH FEWNOL

Cwmpas cyfrifoldeb

Y Bwrdd sydd yn gyfrifol am reolaeth fewnol. Fel Swyddog Atebol a Phrif Weithredwr y Bwrdd, gen i mae'r cyfrifoldeb am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sydd yn cefnogi cyflawni polisiau, nodau ac amcanion y sefydliad, wrth ddiogelu'r arian cyhoeddus ac asedau'r sefydliad hwn yr wyf i'n bersonol gyfrifol amdanynt. Mae hyn yn unol â'r cyfrifoldebau a bennwyd gan Swyddog Cyfrifo GIG Cymru.

Yn sylfaen i fframwaith rheoli mewnol y BILI mae Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, a fabwysiadwyd yn ffurfiol gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2003 ac a ddiwygiwyd wedyn yn ystod 2004-05. Mae'r Rheolau Sefydlog yn cynnwys cynllun dirprwyo ac mae'r BILI hefyd wedi mabwysiadu fframwaith awdurdodi manwl sy'n pennu awdurdod i awdurdodi archebu nwyddau a gwasanaethau, taliadau a hawliau i drosglwyddo arian cyllidebau.

Mae'r BILI wedi cynnal hunanasesiadau yn erbyn Safonau Rheoli Risg Cymru a Chynlluniau Gweithredu cytunedig ar gyfer gwella. Caiff manylion llawn eu cyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn Awst 2005.

Diben y system rheolaeth fewnol

Mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i chynllunio i leihau risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni polisiau, nodau ac amcanion; felly ni all ond rhoi sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd, nid sicrwydd llwyr.

Mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i seilio ar broses barhaus sydd wedi'i chynllunio i ganfod a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisiau, nodau ac amcanion y sefydliad, i werthuso'r tebygrwydd y gwiredir y risgiau hynny a'r effaith pe baent yn cael eu gwireddu, ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi bod yn ei lle yn y sefydliad am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2005 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r cyfrifon, ac mae'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Oherwydd natur arferion gweithredol y BILI, gwneir nifer sylweddol o drafodion gan y Ganolfan Gwasanaethau Busnes o dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth. Mae'r Cytundeb hwn yn cynnwys y meysydd allweddol canlynol:

- Cyllid;
- Technoleg Gwybodaeth;
- Gwasanaethau Contractwyr;
- Adnoddau Dynol.

Mae angen i'r BILI sicrhau ei hun bod y system rheolaeth fewnol sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau hyn yn drylwyr ac yn gweithredu'n effeithiol. Mae Pwyllgor Archwilio'r BILI yn derbyn adroddiadau archwilio mewnol ac allanol yn rheolaidd ar adolygiadau a systemau allweddol, a phrosesau yn y Ganolfan Gwasanaethau Busnes. Mae'r adroddiadau hyn yn nodi gwendidau mewn systemau ac argymhellion priodol, a adlewyrchir wedi hynny mewn Cynlluniau Gweithredu cytunedig.

Mae'r BILI hefyd yn dibynnu ar fecanweithiau rheoli allweddol eraill, gan gynnwys gwaith yr Uned Gwasanaethau Presgripsiwn (PSU), yr Uned Ddilysu Ôl-dalu (PPVU) a gweithgareddau'r Arbenigwr Gwrth Dwyll Lleol.

Health Solutions Wales (HSW) sy'n gyfrifol am weinyddu'r PSU a'r PPVU fel ei gilydd.

Cyflwynir presgripsiynau i'r PSU i gael eu priso ac yna llunnir rhestrau talu er mwyn galluogi BILlau i dalu'r contractwyr gweinyddu. Yn y PSU mae yna Dîm Cymorth Busnes, a'i brif swyddogaeth yw gwneud profion gwirio ar waith y swyddogion priso.

Cylch gwaith y PPVU yw sefydlu dilysrwydd eithriadau a mynd ar ôl achosion lle na ellir dangos eithriad dilys.

Mae'r Arbenigwr Gwrth Dwyll Lleol yn cydweithio'n agos â'r BILl ac ar gyfer 2004-05 cytunwyd ar gynllun gwrth dwyll a oedd yn cynnwys y meysydd allweddol canlynol:

- Datblygu diwylliant gwrth dwyll;
- Peri i bobl beidio â thwyll;
- Atal twyll;
- Darganfod twyll;
- Ymchwilio i dwyll.

Mae'r Arbenigwr Gwrth Dwyll Lleol wedi mynychu nifer o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio i adrodd am y cynnydd yn erbyn y cynllun gwrth dwyll ac i gynghori ar unrhyw faterion perthnasol sy'n ymwneud â thwyll.

Y gallu i ymdrin â risg

Mae'r Bwrdd wedi cytuno i gyflawni ei gyfrifoldebau am reoli risg corfforaethol trwy'r Pwyllgor Archwilio ac am lywodraethu clinigol trwy'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol. Mae cysylltiad clir wedi cael ei sefydlu rhwng y ddau bwyllgor hyn mewn perthynas â rheoli risg. Yn ogystal, mae'r BILl yn gweithredu Grŵp Rheoli Risg, y mae swyddogion y BILl yn aelodau ohono, i drafod agweddau gweithredol rheoli risg yn y BILl. Mae'r Grŵp Rheoli Risg yn adrodd yn uniongyrchol i'r Pwyllgor Archwilio.

Mae'r cyfrifoldeb cyffredinol am reoli risg gan y Prif Weithredwr. Dirprwywyd cyfrifoldeb am reoli risg i'r Cyfarwyddwr Ariannol a rhoddwyd cyfrifoldeb am lywodraethu clinigol i'r Cyfarwyddwr Meddygol.

Rhoddwyd cyflwyniadau ar Reoli Risg i'r Bwrdd fel rhan o'r sesiynau datblygu ac mae cynlluniau yn eu lle i gynnal rhaglen o hyfforddiant ychwanegol ar reoli risg i'r holl staff. Bydd y BILl yn cydweithio'n agos â Chronfa Risg Cymru wrth ddatblygu rhaglenni hyfforddiant.

Y Fframwaith Risg a Rheolaeth

Mae'r Strategaeth Rheoli Risg yn darparu fframwaith i'r sefydliad i reoli risg trwy brosesau effeithiol sy'n cynnwys:

- Datblygu ymwybyddiaeth o risg ledled y sefydliad;
- Canfod a dadansoddi risgiau posibl i'r sefydliad;
- Asesu risgiau — ariannol, clinigol a threfniadol;
- Dileu neu liniaru risgiau lle bo modd;
- Datblygu polisïau, gweithdrefnau a rheolaethau er mwyn lleihau risgiau i'r eithaf;
- Cofnodi a monitro risgiau.

■

Mae'r BILI yn graddio risgiau a ganfyddir fel rhai 'uchel', 'canolig' neu 'isel'. Mae'r BILI yn derbyn risgiau gradd 'isel' ar y sail bod yn rhaid cyfeirio ei adnoddau prin yn gyntaf at y rhai a asesir fel rhai 'canolig' neu 'uchel'. Ar ôl i'r BILI ddelio â'r grwpiau diwethaf hyn, ac ar ôl i'r risgiau cysylltiedig gael eu lleihau, bydd y BILI yn dechrau delio â'r risgiau a asesir fel rhai 'isel'.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2004-05 bu'n ofynnol i'r BILI gynnal hunanasesiadau yn erbyn Safonau Rheoli Risg Cymru. Mae'n ofynnol i BILlau gael sgôr o 75% o leiaf ar gyfer safonau A i F a 50% ar gyfer Safonau G ac I. Ceir crynodeb o berfformiad y BILI yn erbyn yr 8 Safon isod.

- Safon A – Polisi a Strategaeth Rheoli Risg - 77% (Targed 75%)
- Safon B – Asesu a Thrin Risg - 81% (Targed 75%)
- Safon C – Adrodd ar Beryglon a Digwyddiadau - 88% (Targed 75%)
- Safon D – Polisiâu a Gweithdrefnau - 56% (Targed 75%)
- Safon E - Llywodraethu - 90% (Targed 75%)
- Safon F – Rheolaeth Ariannol - 89% (Targed 75%)
- Safon G – Hwyluso Darpariaeth Ddiogel Gofal Sylfaenol - 56% (Targed 50%)
- Safon I – Rheoli Cofnodion - 62% (Targed 50%)

Yr unig Safon lle na chyflawnodd y BILI y sgôr lleiaf oedd Safon D 'Polisiau a Gweithdrefnau'. Mae cynllun gweithredu manwl yn cael ei roi ar waith ar hyn o bryd er mwyn delio â'r mater hwn.

Mae'r hunanasesiadau yn erbyn y Safonau wedi cael eu hadolygu gan Archwilwyr Mewnol y BILI a daethpwyd i gytundeb ynghylch sgoriau. Fel rhan o'r broses mae Cynlluniau Gweithredu hefyd wedi cael eu cytuno ar gyfer pob un o'r Safonau er mwyn delio â'r meysydd a nodir fel rhai i'w gwella. Bydd y Grŵp Rheoli Risg yn sicrhau y gweithredir ac yr adolygir perfformiad yn erbyn y Cynlluniau Gweithredu, ac yn adrodd ar hyn i'r Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd.

Nodir bod adolygiad ar wahân o Safon C, Adrodd ar Beryglon a Digwyddiadau, gan Gronfa Risg Cymru, wedi rhoi sgôr o 68% i'r BILI, sy'n is na'r targed ac yn is na'r Asesiad Archwilio Mewnol. Mae'r BILI yn fodlon bod y sgôr o 88% yn adlewyrchu'r arferion cyfredol yn fwy cywir.

Adolygu Effeithiolrwydd

Fel y Swyddog Atebol, mae gen i gyfrifoldeb am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae gwaith yr archwilwyr mewnol a'r swyddogion gweithredol yn y sefydliad sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, a sylwadau gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheolaeth ac adroddiadau eraill, yn cyfrannu at f'adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Fe'm hysbyswyd o oblygiadau canlyniad f'adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio ac mae cynllun yn ei le i ddelio â gwendidau a sicrhau bod y system yn gwella'n barhaol.

Hysbysir y Bwrdd o effeithiolrwydd y rheolaethau mewnol trwy adroddiadau a geir gan y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol. Yn ogystal mae'r adroddiadau mae gweithredwyr yn eu cyflwyno i'r Bwrdd yn nodi materion yn ymwneud â risg i gael eu hystyried.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn monitro effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol trwy dderbyn ac adolygu adroddiadau archwilio mewnol ac allanol a'r camau gweithredu rheolaeth cysylltiedig a gymerwyd. Mae'r adroddiadau hyn wedi'u seilio ar adolygiad systematig o brosesau'r BILI. Mae hyn yn caniatáu i effeithiolrwydd y rheolaethau gael ei asesu ac yn cefnogi gwelliant parhaus. Hysbysir y Bwrdd am faterion fel bo'n briodol trwy adroddiadau'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol yn monitro risgiau clinigol a lle bo'n briodol yn adrodd i'r Bwrdd.

Defnyddiwyd Safonau Rheoli Risg Cymru fel meincnodau er mwyn sicrhau y caiff system effeithiol o reoli a rheolaeth fewnol ei sefydlu ac y gellir dangos honno i'r Bwrdd.

Materion Arwyddocaol

Gwnaeth y Comisiwn Archwilio yng Nghymru, o dan gyfarwyddiadau archwilwyr y BILI, ymarferiad yn ystod 2003-04 i ganfod faint o incwm yr oedd BILlau yn ei golli trwy hawliadau twyllodrus o ran eithriadau i daliadau am bresgripsiynau. Ar sail cyfrifiad wedi'u hallosod o ganfyddiadau sampl, amcangyfrifir bod yr incwm mae BILI Sir Fynwy yn ei golli oddeutu £69,000 y flwyddyn. Ar sail Cymru gyfan, amcangyfrifir y bu lleihad sylweddol yn yr incwm y rhagfynegwyd ei golli. Fodd bynnag, mae cwantwm y maint dan sylw yn dangos bod angen rhagor o ymdrech i leihau'r colledion ymhellach eto. Gwnaed adolygiad archwilio tebyg yn ystod 2004-05 ond nid yw Archwilydd Allanol y BILI wedi derbyn yr adroddiad oddi wrth Swyddfa Archwilio Cymru eto er mwyn rhoi sicrwydd digonol bod rheolaethau a gweithdrefnau cywir yn eu lle y gallant ddibyynu arnynt. Disgwylir y bydd yr adroddiad ar gael ym mis Gorffennaf a rhoddyd sicrwydd llafar nad oes dim materion perthnasol yn codi o'r gwaith adolygu a wnaed.

Yn ogystal â'r uchod, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gwneud rhagor o waith ar dwyll Offthalmig.

Mae'r system rheolaeth fewnol sy'n gweithredu yn y BILI wedi cael ei hasesu a'i hadolygu yn ystod y flwyddyn ariannol a gallaf gadarnhau nad oes dim problemau arwyddocaol o ran rheolaeth fewnol yn bodoli ym Mwrdd Iechyd Lleol Sir Fynwy.

Llofnodwyd:.....

Prif Weithredwr
(ar ran y bwrdd)

Dyddiad:.....

Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ardystiaf fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau a 2 f 36 dan Adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'u haddaswyd gan y broses o ailbricio rhai asedau sefydlog a'r polisiau cyfrifyddu fel y nodir ar dudalennau 6 i 10.

Priod gyfrifoldebau Cyfarwyddwyr, y Prif Weithredwr a'r Archwiliwr

Fel y disgrifiwyd ar dudalen 38 mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol ag Adran 98(2) Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 a chyfarwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a wneir o dan y Ddeddf honno, ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol. Mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr hefyd yn gyfrifol am baratoi Rhagair/cynnwys arall yr Adroddiad Blynyddol. Sefydlwyd fy nghyfrifoldebau i, fel archwilydd annibynnol, drwy statud a rhoddaf ystyriaeth i'r safonau a'r arweiniad a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio ac arweiniad moesegol y proffesiwn archwilio.

Adroddaf fy marn ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac a ydynt wedi eu paratoi yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 a chyfarwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a wneir o dan y Ddeddf honno, ac a yw'r gwariant a'r incwm, ym mhob ystyr sylweddol, wedi ei gymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Adroddaf hefyd, os nad yw'r Rhagair, yn fy marn i, yn gyson â'r datganiadau ariannol, os nad yw'r Bwrdd wedi cadw cofnodion cyfrifyddu cywir, neu os nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad.

Adolygaf a yw'r datganiad ar dudalen 39 yn adlewyrchu cydymffurfiad y Bwrdd ag arweiniad y Trysorlys a'r Cynulliad ar y Datganiad Rheolaeth Fewnol. Adroddaf os nad yw'n bodloni'r gofynion a bennir gan y Trysorlys a'r Cynulliad, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol. Nid yw'n ofynnol i mi ystyried, ac nid wyf wedi ystyried, a yw'r Datganiad Rheolaeth Fewnol yn cwmpasu pob risg a rheolaeth. Nid yw'n ofynnol i mi ychwaith roi barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol y Bwrdd na'i weithdrefnau risg a rheoli.

Sail y farn archwilio

Cynhaliws fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio'r Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio, ar sail prawf, y dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau, y datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau o bwys a wneir gan y Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisiâu cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Bwrdd, wedi eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n briodol.

Cynlluniais a chyflawnais fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd, yn fy marn i, yn angenrheidiol i roi tystiolaeth ddigonol i mi roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamdatganiad perthnasol, boed hynny wedi'i achosi gan gamgymeriad neu drwy dwyll neu ryw afreoleidd-dra neu gamgymeriad arall a bod y gwariant a'r incwm, ym mhob ystyr berthnasol, wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth lunio fy marn rwyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynir y wybodaeth yn y datganiadau ariannol.

Barn

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o faterion Bwrdd Iechyd Lleol Sir Fynwy ar 31 Mawrth 2005 a'r costau gweithredu net, enillion a cholledion cydnabyddedig a'r llifau arian parod am y flwyddyn a ddaeth i ben, ac fe'u paratowyd yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 a'r cyfarwyddiadau a wnaed yn unol â'r Ddeddf honno gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru;
- ym mhob ystyr sylweddol, mae'r gwariant a'r incwm wedi ei gymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Jeremy Colman
Archwilydd Cyffredinol Cymru
3 Awst 2005

Swyddfa Archwilio Cymru
2-4 Park Grove
Caerdydd CF10 3PA

CYFRIF - 2004-2005

ATODIAD 1

DEFNYDDIO CYFRIFON A GOFYNION DATGELU'R DDEDDF CWMNIAU A SAFONAU CYFRIFON

Deddf Cwmniau

1. Ni fydd yr eithriadau datgelu gan y Ddeddf Cwmniau yn berthnasol i'r GIG oni bai y cymeradwy-wyd yn benodol gan y Trysorlys.
2. Mae'r Ddeddf Cwmniau yn mynnu bod gwybodaeth benodol yn cael ei datgelu yn Adroddiad y Cyfarwyddwr. Hyd nes y bydd yn briodol, bydd yr wybodaeth sy'n ymwneud â chyrrff GIG yn cael ei chynnwys yn y rhagair.
3. Bydd y datganiad cost gweithredu, mantolen a datganiad llif arian yn ystyried y ffurf a ragnodwyd yn y Llawlyfr Cyfrifa Adnoddau.
5. Nid yw'n ofynnol i gyrff GIG ddarparu gwybodaeth cost hanesyddol a ddisgrifir ym mharagraff (33) o Atodiad 4 i'r Ddeddf Cwmniau.

Safonau Cyfrifa

6. Nid yw'n ofynnol i gyrff GIG gynnwys nodyn yn dangos elw a cholledion costau hanesyddol fel y disgrifir yn FRS 3.

ATODIAD 2

GOFYNION YCHWANEGOL

1. Bydd y rhagair yn cynnwys datganaid bod y cyfrif wedi'i baratoi i gydymffurfio â Chyfarwyddyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 98(2) o'r Ddeddf GIG 1977.
2. Bydd y rhagair hefyd yn cynnwys disgrifiad o'r cefndir statudol a phrif swyddogaethau'r BILI ynghyd ag adolygiad teg o'u gweithgareddau ariannol a gweithredol a chrynodeb o'u perfformiad yn erbyn targedau.

AMRYWIOL

6. Bydd y cyfarwyddyd yn cael ei ailgynhyrchu fel atodiad i'r cyfrifon a gyhoeddir.
7. Bydd nodiadau gyda'r cyfrifon, ymhlith eraill yn cynnwys manylion y polisiau cyfrifa a fabwysiadwyd.
8. Gwneir nodiadau gydag eglurhad pellach o'r ffigyrau yn y cyfrifon ble yr ystyrir yn briodol ar gyfer dealltwriaeth gywir o'r cyfrifon.

Arwyddwyd gan awdurdod Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Llofnod : Christine Daws

Dyddiad :